

Chwefror 2015

Ysgolion Uwchradd yng Ngorllewin Caerdydd

O ddiwedd Ionawr 2015 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno system newydd o gategoriâu ysgol i ddisodli'r bandiau uwchradd a nodir yn adran ganlyniadau'r ddogfen ymgynghori (tudalen 7).

Mae'r system newydd yn gwerthuso ac yn asesu ysgolion a'r lleoedd ynddynt ac yn eu gosod mewn un o bedwar categori cymorth â chod lliw, fel yr amlinellir isod.

Categori Cymorth Gwyrdd

Ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rheoli'n dda, sydd ag arweinwyr cryf ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgolion hyn hanes o godi safonau cyrhaeddiad disgyblion a'r gallu i gefnogi ysgolion eraill fel eu bod yn gwneud yn well.

Categori Cymorth Melyn

Ysgol effeithiol sydd eisoes yn gwneud yn dda ac sy'n gwybod y meysydd y mae angen eu gwella. Drwy nodi'r cymorth cywir a gweithredu, mae potensial i wneud hyd yn oed yn well.

Categori Cymorth Ambr

Ysgol sydd angen ei gwella y mae angen help arni i nodi'r camau sydd angen eu cymryd i wella neu i newid yn gyflymach. Drwy drafodaethau â'r gwasanaeth gwella ysgolion lleol a'r awdurdod lleol, caiff yr ysgol becyn cymorth sy'n benodol iddi.

Categori Cymorth Coch

Ysgol y mae angen ei gwella'n fawr. Caiff gymorth dwys ar unwaith. Caiff cynnydd ei fonitro'n agos i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud cyn gynted â phosibl.

Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel

Mae'r broses gategoreiddio ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru wedi gosod Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Cymunedol Llanfihangel yn y Categori Cymorth Coch.

Os oes gennych chi ymholiadau cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar (029) 2087 2720 neu e-bostiwch ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk